CYFARFOD

# Papur Cabinet: Cyhoeddi Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru

Papur Cabinet CAB(22-23)41

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 10 Mawrth 2023

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 10 Mawrth 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/papur-cabinet-cyhoeddi-cynllun-gweithredu-lhdtc-cymru** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


Y penderfyniadau sy’n ofynnol

Crynodeb

Amcan

Y prif feysydd o ddiddordeb

Effaith

Cyfathrebu a chyhoeddiadau

Argymhelliad



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/papur-cabinet-cyhoeddi-cynllun-gweithredu-lhdtc-cymru** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Y penderfyniadau sy’n ofynnol

1. Cytuno ar y Cynllun Gweithredu LHDTC+ diwygiedig, y trefnwyd iddo gael ei gyhoeddi ym mis Chwefror 2023, a
2. Cymeradwyo lansiad y Cynllun Gweithredu LHDTC+ ar 7 Chwefror 2023 fel rhan o Fis Hanes LHDTC+ 2023.

## Crynodeb

1. Rydym am i Gymru fod yn wlad lle mae pawb yn teimlo’n ddiogel i fod yn nhw eu hunain, ac i fod yn agored am eu cyfeiriadedd rhywiol, eu rhywedd, a’u mynegiant rhywedd, yn y cartref, yn y gwaith neu yn ystod gweithgareddau hamdden, heb deimlo dan fygythiad. Ymrwymodd y Rhaglen Lywodraethu i sicrhau mai Cymru yw’r genedl fwyaf cyfeillgar i bobl LHDTC+ yn Ewrop, ac mae’r Cynllun Gweithredu LHDTC+ yn cael ei ystyried yn gam pwysig tuag at gyrraedd y nod hwnnw.

2. Mae’r cynllun yn nodi’r fframwaith ar gyfer datblygu polisïau LHDTC+ ar draws y Llywodraeth a’r camau y byddwn yn eu cymryd i gryfhau cydraddoldeb i bobl LHDTC+, herio gwahaniaethu, a chreu cymdeithas lle mae pobl LHDTC+ yn ddiogel i fyw fel nhw eu hunain.

3. Mae swyddogion wedi cydweithio ag ystod eang o gynrychiolwyr o gymunedau LHDTC+ ynghyd â’r Panel Arbenigwyr LHDTC+ i lywio’r gwaith o ddatblygu’r Cynllun Gweithredu LHDTC+ (Dogfen 1). Mae hyn yn cynnwys dadansoddi’r ymatebion i’r ymgynghoriad a’r mewnbwn gan randdeiliaid ers cyhoeddi’r cynllun drafft ym mis Gorffennaf 2021. O ganlyniad, mae’r Cynllun yn cynnwys camau gweithredu pendant, graddol, ac y gellir eu mesur, a fydd yn cael effaith sylweddol a chadarnhaol ar fywydau pobl LHDTC+ yng Nghymru ac y cytunwyd arnynt â pherchnogion camau gweithredu ac arweinwyr polisi.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/papur-cabinet-cyhoeddi-cynllun-gweithredu-lhdtc-cymru** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

4. Awgrymir bod yr wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei darparu yn flynyddol i bob Gweinidog ynghylch gweithredu'r Cynllun.

## Amcan y papur

5. Mae Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru (Dogfen 1) wedi cael ei sefydlu i helpu i gydgysylltu camau gweithredu gan Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill. Mae'r cynllun yn amlinellu gweledigaeth gyffredinol i wella bywydau pobl LHDTC+ a chanlyniadau iddynt. Mae'n cynnwys amrywiaeth eang o gamau polisi penodol sy'n ymwneud â hawliau dynol, addysg, gwella diogelwch, tai, iechyd a gofal cymdeithasol, chwaraeon, diwylliant, a hyrwyddo cydlyniant cymunedol. Yn benodol, drwy'r Cynllun Gweithredu hwn, mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i amddiffyn a hyrwyddo hawliau ac urddas pobl draws ac anneuaidd, a helpu'r cymunedau hynny i deimlo'n gyfforddus ac yn rhan o gymdeithas yng Nghymru.

## Y prif feysydd o ddiddordeb

### Addysg

6. Rydym yn galluogi addysg fwy cynhwysol, drwy ymrwymo i ddarparu canllawiau cenedlaethol i ysgolion erbyn haf 2023 er mwyn helpu ysgolion ac awdurdodau lleol i gefnogi disgyblion trawsryweddol i'r eithaf. Nododd **Adroddiad Ysgol Cymru** (Stonewall 2017) ymhlith myfyrwyr 11-19 oed yng Nghymru, fod 54% o fyfyrwyr LHDT a 73% o fyfyrwyr traws yn cael eu bwlio yn yr ysgol ynglŷn â'u cyfeiriadedd rhywiol neu eu rhywedd.

7. Camau allweddol yn y Cynllun: Rhoi canllawiau cenedlaethol ar faterion traws i ysgolion ac awdurdodau lleol. Mae swyddogion addysg wrthi'n llunio canllawiau

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/papur-cabinet-cyhoeddi-cynllun-gweithredu-lhdtc-cymru** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

cenedlaethol ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol, er mwyn eu galluogi i gefnogi anghenion plant a phobl ifanc draws i'r eithaf (mae disgwyl i'r canllawiau gael eu cyhoeddi yn ystod haf/ym mis Medi 2023).

## Iechyd

8. Er bod gan Gymru ei gwasanaeth rhywedd ei hun, dim ond darpariaeth i oedolion ydyw. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw wasanaethau rhywedd i blant na phobl ifanc drawsryweddol yng Nghymru. Felly, maent yn aml yn cael eu cyfeirio at wasanaethau yn Lloegr. Mae **adroddiad arolygu ar wasanaethau hunaniaeth rhywedd** (Comisiwn Ansawdd Gofal 2019) wedi canfod bod Gwasanaethau Rhywedd i bobl ifanc yn annigonol o hyd yn Lloegr, gan ddweud:

> “ The service was difficult to access. There were over 4600 young people on the waiting list. Young people waited over two years for their first appointment. ”

9. Camau allweddol yn y Cynllun: Parhau i ddatblygu Gwasanaeth Rhywedd Cymru; Adolygu'r llwybr Datblygu Hunaniaeth Rhywedd i bobl ifanc yng Nghymru.

## Diogelwch a rhyddid rhag gwahaniaethu

10. Drwy deimlo'n fwy diogel yng Nghymru bydd modd i bobl LHDTC+ ffynnu a byw heb ofn, yn eu bywyd personol ac mewn cymdeithas. Mae llawer o bobl LHDTC+ yng Nghymru yn parhau i deimlo'n anniogel ac mewn perygl mawr o gael eu cam-drin neu eu gwahaniaethu.

11. Mae'r camau allweddol yn yr adran hon o'r Cynllun sy'n ceisio mynd i'r afael

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/papur-cabinet-cyhoeddi-cynllun-gweithredu-lhdtc-cymru** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

â hyn a gwarantu diogelwch pobl LHDTC+ yng Nghymru yn cynnwys:

- cael gwared ar rwystrau i bobl LHDTC+ rhag rhoi gwybod am droseddau casineb
- parhau i fuddsoddi mewn rhaglenni atal troseddau casineb ledled Cymru
- gwella perthynas cymunedau LHDTC+ ag awdurdodau gorfodi'r gyfraith

## Y Chwaraeon a diwylliant

12. Yn ddiweddar, gwelwyd cynnydd yn y polisïau chwaraeon nad ydynt yn cynnwys pobl draws yn gyfan gwbl, yn enwedig menywod traws, gan gyrff rhyngwladol a domestig. Mae perygl y bydd gwaharddiad llwyr ar bobl drawsryweddol ac anneuaidd yn anfon neges anghywir i bobl ifanc draws na allant gael yr un cyfleoedd â phlant eraill, ac i bob person ifanc fod yn rhaid iddynt ymgyflwyno mewn ffordd benodol er mwyn cael eu parchu am bwy ydynt.

13. Camau allweddol yn y cynllun:

- Gwella cynrychiolaeth, cynhwysiant, a chyfranogiad pobl LHDTC+ ym myd chwaraeon
- Gwella mynediad a chyfranogiad pobl drawsryweddol ym myd chwaraeon.

# Effaith

## Y Rhaglen Lywodraethu

14. Mae'r Cynllun Gweithredu yn cynnwys yr ymrwymiadau a ganlyn o'r Rhaglen Lywodraethu:

- cefnogi sefydliadau Pride ledled Cymru

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/papur-cabinet-cyhoeddi-cynllun-gweithredu-lhdtc-cymru** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- gweithio ar Gydnabod Rhywedd
- gweithio ar wahardd arferion trosi

15. Mae Asesiad Effaith Integredig wedi'i gyflawni ar gyfer y Cynllun Gweithredu hwn.

16. Mae'r Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb a'u hymchwilwyr wedi gwneud asesiad gwerthusadwyedd o ran y Cynllun a gwaith rhagarweiniol tuag at werthuso ei effaith (mae'r Asesiad Gwerthusadwyedd a'r gwerthusiad ar gael yn Nogfen 2).

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

17. Bydd creu Cymru sy'n fwy cyfartal, lle mae gan bawb gyfle i gymryd rhan, i wireddu eu potensial a gallu cyfrannu'n llawn at yr economi, yn galluogi Cymru i fod yn fwy llewyrchus ac arloesol. Mae cysylltiadau amlwg rhwng y gwaith o ddatblygu'r Cynllun Gweithredu LHDTC+ a'r nod hwn, a nod 'Cymru sy'n fwy cyfartal'. Mae'r cynllun wedi'i ddatblygu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r 'pum dull o weithio' yn adran 5 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Yn bwysicach na dim, drwy gynnwys pobl LHDTC+ a chydweithio â nhw, mae eu profiad uniongyrchol yn ganolog i gynnwys y Cynllun.

## Cerrig milltir cenedlaethol

18. Mae mynd i'r afael ag anghydraddoldebau yn hanfodol er mwyn sicrhau cyfiawnder economaidd a chymdeithasol. Mae llawer o gamau gweithredu a gweithgareddau'r Cynllun yn ymwneud â chyfiawnder cymdeithasol a phartneriaeth gymdeithasol, ond maent yn ymwneud hefyd â gofal iechyd, iechyd meddwl a gofal cymdeithasol; addysg a sgiliau cynhwysol; cyflogaeth, hyfforddiant a gwirfoddoli; a'r Gymraeg.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/papur-cabinet-cyhoeddi-cynllun-gweithredu-lhdtc-cymru** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

19. Mae Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi'u hymgorffori yng ngweithgareddau'r tîm polisi Cydraddoldeb. Mae gan y tîm Cydraddoldeb gamau gweithredu, prosiectau a pholisïau sy'n rhoi cefnogaeth uniongyrchol ac yn cael effaith gadarnhaol yng nghyswllt Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Hawliau Dynol, ac o ran Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (Deddf Cydraddoldeb 2010) i gyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas decach drwy roi sylw dyledus i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfleoedd cyfartal a meithrin cysylltiadau da.

20. O safbwynt rhyngwladol, sylfaen y Cynllun Gweithredu hwn yw'r dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau dynol a amlinellwyd gan Uchel Gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig (CU) (UNSDG 2022) ac Arbenigwr Annibynnol y CU ar Gyfeiriadedd Rhywiol a Hunaniaeth Rhywedd (IESOGI) (OHCHR 2022b).

21. Bydd y Cynllun hwn hefyd yn cyfrannu'n fawr at waith Llywodraeth Cymru o gyflawni swyddogaethau Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus o dan adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Bydd yn gysylltiedig â gwaith ar gydraddoldeb rhwng y rhywiau, anabledd, hil a nodweddion gwarchodedig eraill o dan y Ddeddf hon. Rydym yn cydnabod bod angen sicrhau bod ein Cynlluniau Gweithredu ym maes cydraddoldeb yn gweithio gyda'i gilydd.

## Y Cytundeb Cydweithio

22. Mae'r Cytundeb Cydweithio yn cynnwys yr ymrwymiad a ganlyn:

> " Gwneud Cymru y genedl fwyaf cyfeillgar i bobl LHDTC+ yn Ewrop a chefnogi cyhoeddi'r Cynllun Gweithredu LHDTC+. Byddwn yn galw am ddatganoli'r pwerau i ddeddfu i wella bywydau a diogelu pobl

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/papur-cabinet-cyhoeddi-cynllun-gweithredu-lhdtc-cymru** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

> drawsryweddol yng Nghymru. ”

Mae’r Aelod Dynodedig, Siân Gwenllian AS, wedi chwarae rhan weithredol yn y gwaith o gytuno ar y Cynllun a’i gwblhau.

23. Ar 12 Ionawr 2023, mewn cyfarfod o’r Pwyllgor Polisi, cytunodd yr Aelod Dynodedig a’r Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol yn ffurfiol i gyhoeddi Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru. Roedd hyn yn cynnwys cytuno ar gynnwys y Cynllun Gweithredu LHDTC+ (Dogfen 1) a’r Papur Cabinet hwn CAB (22-23) 41.

## Cyfathrebu a chyhoeddiadau

24. Y bwriad yw i’r Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol lansio’r Cynllun Gweithredu LHDTC+ drwy gyfrwng Datganiad Llafar yn y Cyfarfod Llawn ar 7 Chwefror 2023, ac yna iddo gael ei gyhoeddi ar unwaith ar wefan Llywodraeth Cymru. Bwriedir cynnal lansiad cyfyngedig ar yr un diwrnod yn y Senedd.

25. Hysbysiad i’r wasg i dynnu sylw at y dull traws-adrannol o sicrhau cydraddoldeb i bawb yng Nghymru. Bydd hefyd yn gyfle i dynnu sylw at y gwaith parhaus gyda’r cyhoedd ac yn cyflwyno galwad i weithredu er mwyn helpu i roi’r Cynllun ar waith. Drwy lansio ym mis Chwefror, mae modd cyd-fynd ag amryw o ddigwyddiadau i nodi mis Hanes LHDTC+ a fydd yn tynnu sylw ymhellach at y Cynllun Gweithredu newydd.

## Argymhelliad

- Dylai’r Cabinet gytuno ar y Cynllun Gweithredu LHDTC+ a geir yn Nogfen 1
- Dylai’r Cabinet gytuno bod y Cynllun yn cael ei gyhoeddi ym mis Chwefror

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/papur-cabinet-cyhoeddi-cynllun-gweithredu-lhdtc-cymru** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

fel rhan o Fis Hanes LHDTC+ 2023.

Hannah Blythyn AS
Y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol
18 Ionawr 2023

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/papur-cabinet-cyhoeddi-cynllun-gweithredu-lhdtc-cymru** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.